Ein Stori Lawen

- Mynegwn ein ffydd Gristnogol yn llawen trwy ein haddoliad, ein gwasanaeth a'n cymdeithas mewn awyrgylch sy'n groesawgar, gofalgar a theuluol ei naws.
- Yr ydym yn meithrin ein plant a'n pobl ifanc trwy weithgareddau'r Ysgol Sul a'r gwasanaethau teuluol, a thrwy ein gwasanaethau litwrgaidd, y geiriau a'r gerddoriaeth cawn ein hysbrydoli i addoli a gwasanaethu'r Duw byw.
- Yr ydym yn falch o annog a chefnogi dysgwyr y Gymraeg.
- Mae croeso ac mae lle yn yr eglwys hon i bawb sydd am ystyried neu ailgydio yn eu ffydd neu sy'n chwilio am gartref ysbrydol.

Os am ragor o wybodaeth am Eglwys Dewi Sant:

Ficer/Vicar: Y Parchedig Ganon Dyfrig C. Lloyd Rhif Ffôn: 029 2056 6001
E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com
Curad / Curate: Y Parchedig Athro Lloyd Llewellyn-Jones
Y Wardeniaid/Churchwardens:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Delyth Davies – Ffôn: 077 61 118722
E-bost: delyth.d@yahoo.com
Cyfarwyddwr Cerdd:
Ieuan Jones, B. Mus - Ffôn: 074 29 012781
E-bost: ieuanjones@hotmail.co.uk
Trysorydd:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Ysgrifennydd Cymorth Rhodd:
Graham Carson - Ffôn: 07712387203
Ysgrifennydd Cyngor Plwyf:
Marian Fairclough - Ffôn: 07579763030
E-bost: faircloughmarian@gmail.com

Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd

EGLWYS DEWI SANT
www.eglwysdewisant.org.uk

CROESO i bawb sydd yn ymweld â'r eglwys heddiw. Cofiwch ymuno â ni am baned a sgwrs yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth.

17 Mai 2026
Sul wedi'r Dyrchafael

8.00am Y Cymun Bendigaid
Darllenydd: Ifer Arch

10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân ar Ysgol Sul
Darllenwyr: Liz Harewood / Shân Morgan
Emynau: 114 (Gelbot Sei Gott); 115 (Kilmorey); 112 (St Magnus 262); 344 (Rhosymedre)

6.00pm Yr Hwyrol Weddi a Phregeth
Salm: 47
Darlleniadau: II Samuel 23:1-5
Effesiaid 1:15-23
Darllenwyr: Beti Davies / Mair Matthews
Emynau: 118 (Duke Street 347); 121 (Gopsal); 124 (Zurich 114)

YN EIN GWEDDÏAU
Cofiwn yn ein gweddïau y cleifion: Sylvia Beecher, Dilys Hicks, Eleri Hughes, Jean Jones, Gwenda Williams ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist, dros Cyril Edward Hughes a thros bawb y cofiwn am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

Yn yr Eglwys:

Nos Fawrth 19 Mai 2026
6.00pm Ymarfer Côr

Dydd Mercher 20 Mai 2026
10.30am Y Cymun Bendigaid

Dydd Sul 24 Mai 2025
Y Sulgwyn
8.00am Y Cymun Bendigaid
10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân
6.00pm Yr Hwyrol Weddi a Phregeth

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL

Mae wythnos Cymorth Cristnogol yn gorffen heddiw. Y thema eleni yw 'gweithredu'n ffyddlon' ac yn canolbwyntio ar y gwaith o frwydro yn erbyn tlodi trefol yn Nairobi, Cenia trwy helpu gwragedd i sefydlu gerddi a thyfu bwyd i fwydo eu teuluoedd a'u gwerthu yn y farchnad er mwyn ennill arian.

Os hoffech gyfrannu tuag at waith Cymorth Cristnogol, mae amlenni pwrpasol yng nghefn yr eglwys ac mae croeso i chi roi yr amlenni ar y plât casgliad. Byddwn yn cadw'r casgliad yn agored trwy gydol y mis.

STONDIN CYNNYRCH CARTREF

Cynhelir Stondin Cynnyrch Cartref er budd Cymorth Cristnogol heddiw yn syth ar ôl y gwasanaeth 10.30am.

COLCH DEWI

Mae rhifyn newydd o gylchgrawn yr eglwys Cloch Dewi yn cael ei ddosbarthu heddiw. Mynnwch eich copi cyn i chi adael yr eglwys heddiw.

LANSIAD LLYFR

Bydd ein curad, y Parchedig Athro Lloyd Llewellyn-Jones yn lansio ei lyfr newydd "*Babylon: The mother of all cities*" yn Waterstones yr Ais nos Iau 21 Mai am 7pm. Croeso i bawb.

COFFI A CHLONC

Diolch i bawb a ddaeth ynghyd ddoe ar gyfer ein bore Coffi a Chlonc. Cynhelir y nesaf dydd Sadwrn 20 Mehefin am 10.30am.

EGLWYSI CYTÛN DINAS CAERDYDD A'R BAE

Bydd swper yn Valetino's Windsor Place, **nos Wener 22 Mai am 6.30pm**. Mae'r achlysur hwn yn agored i bawb a bydd yn gyfle inni gyfarfod â'n cyd-Gristionogion yng nghanol y ddinas. Byddwn hefyd yn manteisio ar y cyfle i ddiolch i'r Parchedig Denzil John am ei gyfraniad i Cytûn y Ddinas a'r Bae dros nifer fawr o flynyddoedd. Os hoffech ddod a wnewch chi roi eich enw ar y daflen sydd yng nghefn yr eglwys. Fe welwch y fwydlen yno hefyd. Am ragor o wybodaeth mynnwch air â Rhys Jones. **Bydd angen eich enwau a'r taliad erbyn dydd heddiw, Sul 17 Mai.**

CYMDEITHASU MIS MAI

Ar gyfer ein cymdeithasu y mis hwn yr ydym yn trefnu mynd ar antur hwyrol i Ynys y Barri ar y trên! Byddwn yn cwrdd yn EDS am 5.30pm a dal y trên o orsaf heol y Frenhines i Ynys y Barri. Wedi cyrraedd Ynys y Barri byddwn yn mynd am dro ar y traeth ac efallai cael hufen ia fach, cyn dychwelyd ar y trên a chyrraedd yn ôl yn EDS erbyn 9.00pm. Neu mae croeso i chi ymuno â ni yn Ynys y Barri os byddai'n well da chi fynd yn eich car.

GWARCHOD YR EGLWYS

Ar ddyletswydd dydd Mercher bydd Beti Davies a Dilys Jones

GWEDDÏAU'R SUL

- Eglwys Anglicanaidd Papua Guinea Newydd
- Ardal Gweinidogaeth y Bont-faen, y Parchedig Duncan Ballard, arweinydd

Darlleniadau a Gwyliau

Dydd Llun 18 Mai:

Actau 19:1-10; Salm 68:1-6; Ioan 16:29-33

Gweddïwn: Esgobaeth Yukon – Eglwys Anglicanaidd Canada

Ardal Gweinidogaeth De Morgannwg, y Parchedig Andrew James, arweinydd

Dydd Mawrth 19 Mai:

Actau 20:17-27; Salm 68:7-20; Ioan 17:1-11a

Gweddïwn dros: Esgobaeth Zaki-Biam – Eglwys Anglicanaidd Nigeria

Ardal Gweinidogaeth Penarth, arweinydd i'w benodi

Dydd Mercher 20 Mai:

Actau 20:28-38; Salm 68:28-35; Ioan 17:11b-19

Gweddïwn dros: Esgobaeth Genhadol Esgobaeth Zambezia – Igreja Anglicana de Mocambique e Angola

Archddiaconiaeth Morgannwg, yr Hybarch Anne-Marie Renshaw

Dydd Iau 21 Mai:

Actau 22:30; 23:6-11; Salm 16; Ioan 17:20-26

Gweddïwn dros: Esgobaeth Zambia Ganolig, Eglwys Talaith Affrica Ganolig

Ardal Gweinidogaeth De Cwm Cynon, y Parchedig Matthew Gibbon

Dydd Gwener 22 Mai:

Actau 25:13-21; Salm 103:1,2, 19-22; Ioan 21:15-19

Gweddïwn dros: Esgobaeth Dwyrain Zambia – Eglwys Anglicanaidd Talaith Affrica Ganolig

Ardal Gweinidogaeth Cynon Uchaf, y Parchedig Hywel Snook, arweinydd

Dydd Sadwrn 23 Mai:

Actau 28:16-20, 30, 31; Salm 11; Ioan 21:20-25

Gweddïwn dros: Esgobaeth Gogledd Zamnia – Eglwys Talaith Affrica Ganolig

Ardal Gweinidogaeth Gogledd Zambia – Eglwys Talaith Affrica Ganolig